Adroddiad cynnydd asesiad personol – Darllen

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deall adroddiad y dysgwr

Mae'ch plentyn wedi gwneud asesiad personol byr ar-lein ar gyfer Darllen. Mae'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddeall yr adroddiad a roddwyd iddyn nhw.

Pwrpas asesiadau personol yw helpu plant i wneud cynnydd, a hynny trwy ddeall yr hyn y gallan nhw ei wneud, yr hyn na allan nhw ei wneud, a'u camau nesaf.

Beth sy'n cael ei asesu ar gyfer Darllen?

Mae asesiadau personol Darllen yn rhoi gwybodaeth ar ba mor dda y mae plentyn yn deall testun ac a yw'n gallu llunio barn am yr hyn y mae'n ei ddarllen.

Sut mae'r asesiad yn gweithio?

Dewisir y testunau a'r cwestiynau o 'gronfa' fawr a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9. Mae pob testun yn cael ei ddewis yn seiliedig ar yr atebion a roddwyd i'r cwestiynau blaenorol. Os bydd dysgwyr yn cael cwestiynau'n gywir, byddan nhw'n cael testunau a chwestiynau ychydig yn fwy anodd nesaf. Os na fyddan nhw'n gallu ateb cwestiwn, neu os fyddan nhw'n ateb yn anghywir neu'n sgipio cwestiwn, byddan nhw'n cael testun neu ymarfer cwblhau brawddeg ychydig yn haws. Bydd pob dysgwr yn cael rhai cwestiynau'n gywir a rhai cwestiynau'n anghywir, gan mai dyma sut y cesglir gwybodaeth am yr hyn y gall pob dysgwr ei wneud ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu y bydd asesiad pob dysgwr yn unigryw iddo ef/hi.

Beth mae'r adroddiad yn ei ddweud?

Mae adran gyntaf yr adroddiad yn dangos cynnydd eich plentyn yn yr asesiadau personol Darllen. Mae'r asesiadau a gymerodd eich plentyn yn cael eu dangos ar y graff. Efallai y bydd eich plentyn wedi cymryd mwy nag un asesiad yn y flwyddyn, felly bydd naill ai un neu ddau asesiad ar y graff ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr asesiadau, mae'r graff yn dangos lle mae'ch plentyn arni o'i gymharu â phlant eraill sydd yn ei grŵp blwyddyn ledled Cymru. Byddwch yn gallu gweld cynnydd eich plentyn o un flwyddyn i'r llall.

Mae ail adran yr adroddiad yn dangos sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer eich plentyn o ran ei asesiad diweddaraf. Mae hyn yn dangos sut y mae eich plentyn wedi'i wneud o'i gymharu â phlant eraill yng Nghymru sydd wedi eu geni yn yr un flwyddyn a'r un mis.

70–130 yw ystod y sgôr a'r cyfartaledd yw 100.

Mewn ychydig o achosion, os bydd gan blentyn sgôr safonedig ar sail oedran uchel iawn, efallai y caiff ei dangos fel 'mwy na 130' (130+), ac efallai y caiff sgôr plentyn sy'n datblygu sgiliau'n arafach ei dangos fel 'llai na 70' (<70). Bydd tua 2.5 y cant o'r dysgwyr yn cael sgôr sy'n cael ei ddangos fel llai na 70, a thua 2.5 y cant o'r dysgwyr yn cael sgôr sy'n cael ei ddangos fel mwy na 130.

Am ragor o wybodaeth am asesiadau personol ewch i
hwb.gov.wales/asesiadau-personol-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43193